# PA ANIFAIL GA I I'M PLENTYN?

Mae cadw anifail anwes yn ffordd arbennig o dda o ddysgu cyfrifoldeb i blentyn. Mae hefyd yn dysgu plant i fod yn garedig at anifeiliaid a phobl.

Anifeiliaid bach fel cwningod, llygod a moch cwta ydy'r rhai hawsaf i'w cadw. Maen nhw'n rhad i'w cadw, does dim gormod o waith gyda nhw ac maen nhw'n hwyl.

Mae bochdew yn dda hefyd, ond y broblem ydy eu bod yn cysgu yn ystod y dydd ac yn dod allan yn y nos.

Mae cŵn a phlant yn gyfuniad da ond mae cŵn pedigri yn ddrud i'w prynu. Gellwch gael un o gartref cŵn ond mae'n risg oherwydd does dim posibl gwybod sut gymeriad fydd gan y ci, na'i faint wedi iddo dyfu i fyny.

Mae angen gwybod beth fydd eich cyfrifoldeb fel perchennog ci, faint fydd yn ei gostio i'w gadw, biliau milfeddyg ac ati. Fydd gennych chi ddigon o amser i'w ymarfer a'i olchi a'i frwsio? Bydd angen tegannau, coleri a thennyn arno.

A pheidiwch anghofio y bydd anifeiliaid anwes yn gwneud pethau na ddylen nhw fel cnoi dodrefn a dillad ac yn dod â chwain i'r tŷ.

Nid yw biliau milfeddyg cwningod, moch cwta a llygod yn ddrud, a'r unig beth sy'n rhaid ei wneud yw eu bwydo a'u cadw'n lân. Mae eu bwyd yn rhad a gellwch falu papur yn fân i'w gymysgu gyda gwellt i wneud gwely iddynt.

Mae'n well gan blant anifeiliaid i'w mwytho a'u cwtsio na phethau fel nadroedd ac mae'n rhaid gwario ar danc a bwyd byw iddyn nhw.

Er mor giwt ydy cathod a chathod bach dydyn nhw ddim yn addas i blant dan 5 oed oherwydd gall plentyn bach roi anaf difrifol iddynt wrth eu gwasgu. Bydd cath hŷn, ar y llaw arall, yn crafu os ydy'n meddwl ei bod yn cael ei bygwth.

Gall cath orwedd ar fabi sy'n cysgu a'i fygu. Ni ddylai cathod gael mynd i ystafell wely plentyn bach.

Ni ddylech adael ci a phlentyn gyda'i gilydd chwaith heb i oedolyn fod yno. Mae'r ffordd mae cŵn yn ymateb i blentyn yn amrywio'n fawr iawn a gall ymddygiad ci newid heb rybudd.

Ydych chi wedi meddwl am anifail anwes bychan sy'n gofyn am ychydig iawn o waith, fel pysgodyn aur neu fferm forgrug? Mae mwncïod y môr yn hawdd i'w cadw. Rydych yn rhoi dŵr a phowdwr mewn powlen blastig ac yn ychwanegu'r crisialau 'mwnci'. Maen nhw'n deor ac yna'n cael babis. Rydych yn eu bwydo bob yn ail ddiwrnod.



